# Cofnodion Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y grŵp trawsbleidiol:** | Twristiaeth |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | Dydd Mercher 15 Chwefror 2023, am 12:00 |
| **Lleoliad:** | Zoom ac Ystafelloedd Seminar y Pierhead |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Sam Rowlands (SR) | AS yn cynrychioli Gogledd Cymru |
| Janet Finch-Saunders (JFS) | AS yn cynrychioli Aberconwy |
| Samuel Kurtz (SK) | AS yn cynrychioli Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Rhun ap Iorwerth (RI) | AS yn cynrychioli Ynys Môn |
| Zak Weaver (ZW) | Aelod o staff cymorth Sam Rowlands AS |
| Jena Quilter (JQ) | Aelod o staff cymorth Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig |
| Billy Jones (BJ) | Aelod o staff cymorth Luke Fletcher AS |
| Suzy Davies (SD) | Cadeirydd Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Adrian Greason-Walker (AGW) | Eiriolwr Polisi, Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Glyn Roberts (GR) | Pennaeth Sicrhau Ansawdd, Llywodraeth Cymru |
| Steffan Roberts (SRWG) | Dirprwy Gyfarwyddwr, Datblygu Twristiaeth, Croeso Cymru |
| David Chapman (DC) | Cyfarwyddwr Gweithredol dros Gymru, UK Hospitality |
| Alistair Handyside (AH) | Cadeirydd Gweithredol, Cymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU |
| Emma McQuillan (EM) | Pennaeth Llywodraethu, Cyfarwyddiaeth, Caravan and Motorhome Club |
| Barbara Griffiths (BG) | Bythynnod Gwyliau Gogledd Cymru |
| Eirlys Jones (EJ) | Cyfarwyddwr Masnachol, Go North Wales |
| Shoko Doherty (SD) | Prif Swyddog Gweithredol, Celtic English Academy |
| Katherine Haynes (KH) | Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu, Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain |

| | |
|---|---|
| Simon McGrath (SM) | Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol, y Clwb Gwersylla a Charafanio |
| Emily Church (EC) | Cadeirydd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru |
| Phil Godsal (PG) | Parc Iscoyd |

## Ymddiheuriadau:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Roy Church | Rhanbarth De Cymru, Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

Croeso a chyflwyniadau:

- Croesawodd SR bawb i'r cyfarfod
- Parthed yr ymgynghoriad, dywedodd SR fod ymatebion da wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf. Dywedodd hefyd fod twristiaeth yn parhau i gael ei chrybwyll yn y Senedd, a bod Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol wedi cael ei gyflwyno.

Cyflwyniad a thrafodaeth ynghylch ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer cyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer yr holl ddarparwyr llety i ymwelwyr yng Nghymru.

- Nododd SRWG, dirprwy gyfarwyddwr datblygu twristiaeth Croeso Cymru, fod yr ymgynghoriad presennol yn cau ar 17 Mawrth. Galwodd ar bobl i rannu'r ymgynghoriad ac i gyflwyno amrywiaeth eang o safbwyntiau.
- Yn ôl SRWG, cafwyd ymateb da i'r ymgynghoriad, a gorau po fwyaf y nifer o ymatebwyr sy'n manteisio ar y cyfle i ddweud eu dweud.
- Dywedodd GR fod 400 o ymatebion wedi dod i law – 310 o ymatebion llawn, a 90 o ymatebion rhannol.
- Dywedodd GR fod sefyllfa debyg yn bodoli ar hyn o bryd yng Ngogledd Iwerddon, a bod Lloegr hefyd wedi galw am dystiolaeth ynghylch yr heriau y mae'r sector llety gwyliau tymor byr yn eu hwynebu.
- Dywedodd GR hefyd fod y mater o gyflwyno'r cynllun yn genedlaethol neu'n lleol yn parhau i gael ei asesu, gan ailadrodd y ffaith bod ystod o safbwyntiau wedi'u cyflwyno hyd yn hyn.

- Diolchodd SR i SRWG a GR am eu cyflwyniad. Gwnaeth SR atgoffa'r Grŵp Trawsbleidiol mai swyddogion yw SRWG a GR, yn hytrach na Gweinidogion.
- Diolchodd SD i SRWG a GR, gan nodi y byddai ymateb Cynghrair Twristiaeth Cymru yn cael ei gyflwyno cyn bo hir. Gofynnodd SD o ba grŵp yr oedd mwyafrif yr ymatebion wedi dod.
- Dywedodd GR nad oedd unrhyw ddata ar gael ynghylch tarddiad yr ymatebion. Fodd bynnag, nododd fod y rhan fwyaf ohonynt wedi dod o'r sector hunanarlwyo.
- Holodd SD am yr ymatebion a gafwyd gan y bobl hynny sy'n rhentu am un diwrnod y flwyddyn.
- Dywedodd GR ei bod yn anodd cyrraedd y bobl hynny, ond bod sgyrsiau wedi'u cynnal ag Airbnb.
- Dywedodd SRWG fod llawer o waith cyfathrebu ac ymgysylltu wedi'i wneud, yn y gobaith bod y wybodaeth dan sylw wedi cael ei lledaenu mor eang â phosibl.
- Gofynnodd AGW a fyddai'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu pwysoli, a gofynnodd pa mor deg fyddai'r broses honno.
- Dywedodd SRWG y bydd y gwaith o ddadansoddi'r canfyddiadau yn cael ei gontractio allan i gwmni annibynnol. Yna, bydd adroddiad yn cael ei lunio, gyda'r penderfyniadau polisi terfynol yn cael eu gwneud gan Weinidogion Llywodraeth Cymru.
- Dywedodd AGW fod y geiriad wedi'i newid o 'gofrestru' i 'drwyddedu', a gofynnodd pa effaith y gallai hyn ei chael.
- Parthed yr ymgynghoriad, dywedodd SRWG fod angen clywed ystod eang o safbwyntiau ar hyn o bryd.
- Holodd EC swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch a oes cynllun i gyflwyno asesiad effaith ar gyfer yr holl newidiadau y mae'r sector twristiaeth yn eu hwynebu.
- Dywedodd SRWG fod asesiad effaith yn cael ei gynnal ar gyfer pob newid, a bydd y drefn honno yn parhau.
- Gofynnodd AH a fydd yr asesiadau effaith yn cael eu cynnal cyn y bydd polisïau'n cael eu cyflwyno.
- Dywedodd SRWG y byddai hynny'n digwydd mewn perthynas â'r rhan fwyaf o bolisïau.
- Holodd SR pa fath o ddeialog sy'n digwydd gyda'n cydweithwyr ar draws y Deyrnas Unedig.
- Dywedodd GR fod deialog cyson yn digwydd gyda chydweithwyr yn yr Alban.
- Dywedodd VH fod pryderon helaeth yn y sector ynglŷn â chael llu o newidiadau, a'r ffaith bod iaith yr ymgynghoriad yn ymwneud â thrwyddedu statudol.
- Dywedodd SRWG mai bwriad yr ymgynghoriad penagored yw gwahodd safbwyntiau gwahanol.
- Gofynnodd SD a oedd unrhyw faterion cychwynnol yn dod i'r amlwg yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad.
- Dywedodd GR fod angen mynd i'r afael â'r drafodaeth ynghylch sicrhau tegwch yn y farchnad, a bod safbwyntiau cymysg wedi'u mynegi.

- Diolchodd SR i swyddogion Llywodraeth Cymru am eu cyflwyniad ac am gymryd cwestiynau gan y Grŵp Trawsbleidiol.
- Dywedodd SRWG ei fod yn ansicr ynghylch pryd y byddwn yn gweld ymateb i'r ymgynghoriad.

Y wybodaeth ddiweddaraf a thrafodaeth ynghylch yr eithriadau i'r Rheol 182 Diwrnod a'r Ymgynghoriadau ar yr Ardoll Twristiaeth (ar gau yn yr adroddiad)

- Holodd SR a oedd diweddariad ar gael ynghylch yr ymateb i'r ymgynghoriad 182 diwrnod.
- Dywedodd SRWG fod yr ymgynghoriad hwn wedi dod i ben, gan nodi bod tua 1,500 o ymatebion wedi dod i law. Bydd y gwaith o ddadansoddi'r canfyddiadau yn cael ei gontractio allan, a bydd y Grŵp Trawsbleidiol a Chynghrair Twristiaeth Cymru yn cael eu diweddaru'n gyson.
- Dywedodd AH, gyda 45 diwrnod hyd nes y daw'r rheol 182 diwrnod i rym, nad yw'r eithriadau eto wedi'u cyhoeddi.
- Dywedodd SR y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog ar ran y Grŵp Trawsbleidiol.
- Soniodd AGW am yr angen am fwy o dryloywder mewn perthynas ag ymgynghoriadau.
- Dywedodd DC mai un broblem fawr yw'r modd y gwnaed penderfyniad ynghylch y polisi hwn, heb unrhyw ymgysylltu â'r sector – sefyllfa sydd wedi arwain at deimladau gelyniaethus yn y sector.

Unrhyw fater arall a'r trefniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf

- Dywedodd DC fod perygl y bydd y Grŵp Trawsbleidiol yn gadael bwlch ar gyfer rhannau eraill o'r sector twristiaeth.
- Yn ôl DC, ni all y diwydiant fforddio sefyllfa lle mae'r holl faterion pwysig ar gyfer y dyfodol yn cael eu gwthio i'r neilltu am 12 mis arall.
- Galwodd DC ar y Grŵp Trawsbleidiol i ehangu sbectrwm ei drafodaethau.
- Dywedodd SR fod y pwyntiau hyn yn bwyntiau teg, a bod angen codi pwyntiau agenda mwy cadarnhaol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, gan edrych i'r dyfodol.
- Dywedodd SD fod y broses o feddwl am y dyfodol a chreu gweledigaeth ar ei gyfer wedi dechrau.
- Dywedodd SD y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol lobïo Llywodraeth y DU mewn perthynas â threth ar werth a chostau ynni.
- Yn ôl SR, gallai'r Grŵp Trawsbleidiol anfon llythyr at Lywodraeth y DU.
- Dywedodd SR fod Wythnos Twristiaeth Cymru yn yr arfaeth, gyda digwyddiad yn cael ei gynnal yn y Senedd ar 17 Mai.
- Daeth y cyfarfod i ben am 12:55.